



YSGOL UWCHRADD CAEREINION

Llanfair Caereinion, Y Trallwng/Welshpool, Powys, SY21 0HW
Ffôn/Phone: 01938 810888 * Ffacs/Fax: 01938 810544 * Ebost/Email: office@caer-hs.powys.sch.uk

Pennaeth **Miss Iona Davies B.A. M.A.** Headteacher

Mai 22ain, 2017

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Am sawl blwyddyn, bu'n arfer i blwyddyn 11 fod ar gyfnod o absenoldeb astudio cyn eu arholiadau TGAU. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau caeth ar gyfer y defnydd o absenoldeb astudio fel a ganlyn:

Yn 15-16 oed nid oes gan gyfran uchel o fyfyrwyr y sgiliau, na'r parodrwydd, i fanteisio'n llawn ar gyfnodau hir o amser adolygu heb oruchwyliaeth na strwythur.

Er ei fod yn brofiad cadarnhaol i rai myfyrwyr efallai, i lawer gall absenoldeb astudio fod yn hollol anaddas ac mae'n well iddynt weithio yn yr ysgol gyda'u hathrawon a'u cyfoedion hyd at eu harholiad olaf.

Mae angen i'r broses o baratoi yn llwyddiannus ar gyfer arholiadau fod yn brofiad llawn bwriad, sydd wedi'i gynllunio'n ofalus ar gyfer myfyrwyr.

Pan fydd ysgol yn penderfynu caniatáu absenoldeb astudio ni ddylai fod yn rhy hael wrth wneud hynny ac ni ddylai ganiatáu mwy na 15 diwrnod.

Ni ellir ystyried absenoldeb astudio yn 'weithgaredd addysgol cymeradwy' gan nad yw'n cael ei oruchwyllo.

Pan gaiff ei ddefnyddio'n ormodol bydd absenoldeb astudio'n cael effaith negyddol ar gyfradd presenoldeb cyffredinol yr ysgol."

Y mae'n ofynnol felly i blwyddyn 11 fynychu'r ysgol yn ôl eu harfer. Os bydd disgybl yn absennol oherwydd salwch, disgwylir i chi gysylltu â'r ysgol. Yn ystod yr wythnos hon (Mai 22ain-26ain), bydd naill ai arholiad, gwersi arferol neu wersi adolygu lle bydd myfyrwyr yn derbyn cynhaliadaeth, ymarfer techneg arholiad ac ateb cwestiynau arholiad. Yn ystod y gwersi hynny mewn nifer fechan o bynciau ble mae'r holl asesiadau wedi eu cwblhau a dim arholiad, rhaid i fyfyrwyr sicrhau bod ganddynt ddigon o waith gyda hwy er mwyn adolygu'n ddistaw o dan arolygaeth staff. Noder na fydd gan ddisgyblion yr hawl i ddefnyddio dyfeisiau electronaidd, gan gynnwys ffonau symudol yn ystod cyfnodau adolygu.

Ar ôl hanner tymor, bydd disgyblion yn gallu adolygu'n dawel yn yr ysgol a chynhelir sesiynau adolygu mewn rhai pynciau. Bydd y pynciau unigol yn rhoi gwybodaeth i ddisgyblion am ddyddiadau ac amserau y sesiynau hynny. Bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhoi ar wefan yr ysgol. Disgwylir i ddisgyblion a fydd yn dod i'r ysgol ar gyfer sesiynau adolygu yn y bore i aros yn yr ysgol i adolygu yn y prynhawn neu ddod â llythyr caniatad i ddychwelyd adref, gyda manylion pwy sydd yn eu casglu. Bydd y cyfnod 'absenoldeb astudio' swyddogol yn cychwyn

ar **Ddydd Llun, Mehefin 5^{ed}**. Hoffwn ofyn am eich cydweithrediad chi fel rhieni i sicrhau bod disgyblion yn paratoi yn ofalus ac yn adolygu'n drylwyr ar gyfer yr arholiadau allanol hyn.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich cydweithrediad a hefyd i ddymuno'n dda i bob disgybl yn ystod y cyfnod pwysig hwn.

Yn gywir,



Iona Davies
Pennaeth

NODER AMSERAU ADOLYGU MATHEMATEG I BOB DISGYBL
Mehefin 7fed gwersi 1-4 (i'r disgyblion sy'n ail-sefyll Rhifedd)
Mehefin 12fed gwersi 5 a 6 (arholiad Saesneg yn y bore)
Mehefin 19eg gwersi 1-4